Estyn

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Heol Goffa
# Heol Goffa
# Llanelli
# Sir Gaerfyrddin
# SA15 3LS

## Dyddiad yr arolygiad: Mawrth 2017

## gan

## Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**

**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**

**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol yr ysgol a'i rhagolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| **Barn** | **Yr hyn mae'r farn yn ei olygu** |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).**

**© Hawlfraint y Goron 2017: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Dyddiad cyhoeddi: 26/05/2017**

## Cyd-destun

Ysgol ddydd arbennig awdurdod lleol yw Ysgol Heol Goffa sydd wedi'i lleoli yn Llanelli ac yn cael ei chynnal gan awdurdod lleol Sir Gaerfyrddin. Mae'r ysgol yn darparu lleoliadau ar gyfer disgyblion rhwng 3 ac 19 oed sydd ag anawsterau dysgu difrifol neu ddwys a lluosog.

Ar hyn o bryd, mae 77 o ddisgyblion ar y gofrestr. Mae gan bron bob un o'r disgyblion ddatganiad o anghenion addysgol arbennig, ac mae 43% ohonynt yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim. Daw ychydig iawn o ddisgyblion o gefndiroedd ethnig lleiafrifol. Mae un deg tri y cant o ddisgyblion yng ngofal yr awdurdod lleol. Saesneg yw prif iaith bron pob un o'r disgyblion.

Nod yr ysgol yw darparu profiadau dysgu dynamig, difyr a heriol sy'n cynnig cyfleoedd i bob disgybl gyrraedd ei botensial unigol.

Arolygwyd yr ysgol ddiwethaf ym Mai 2010. Mae'r pennaeth wedi bod yn ei swydd er 2011 ac mae'r dirprwy bennaeth, a benodwyd o'r tîm staff, wedi bod yn ei swydd er Medi 2016.

## Crynodeb

| | |
|---|---|
| **Perfformiad presennol yr ysgol** | **Rhagorol** |
| **Rhagolygon gwella'r ysgol** | **Rhagorol** |

### Perfformiad presennol

Mae perfformiad presennol yr ysgol yn rhagorol oherwydd:

- Mae bron pob un o'r disgyblion yn gwneud cynnydd cryf mewn perthynas â'u hanghenion a'u galluoedd unigol
- Mae disgyblion yn ymgymryd yn frwdfrydig â phob agwedd ar fywyd ysgol, ac maent yn gadarnhaol ynglŷn â'u dysgu
- Mae disgyblion yn elwa'n sylweddol ar ystod eang o brofiadau dysgu cynlluniedig, difyr ac ysgogol
- Mae'r addysgu'n rhagorol
- Ceir trefniadau helaeth i ddisgyblion ddatblygu medrau bywyd pwysig
- Caiff disgyblion lefel ragorol o ofal, cymorth ac arweiniad

### Rhagolygon gwella

Mae rhagolygon gwella'r ysgol yn rhagorol oherwydd:

- Mae uwch arweinwyr yn cyfleu gweledigaeth glir ar gyfer yr ysgol sy'n cael ei rhannu gan bob un o'r staff
- Mae'r uwch dîm arweinyddiaeth yn datblygu medrau arwain y staff yn hynod effeithiol
- Mae arweinwyr yn gwneud defnydd effeithiol o ddata i fonitro ac adolygu'r safonau a gyflawnir gan ddisgyblion, ac yn gosod targedau heriol ar gyfer gwella
- Mae trefniadau'r ysgol ar gyfer hunanarfarnu a chynllunio gwelliant yn drylwyr ac mae arweinwyr yn meddu ar ddealltwriaeth dda iawn o gryfderau'r ysgol a'i meysydd i'w gwella
- Mae gan yr ysgol bartneriaethau cryf iawn, sy'n effeithio'n gadarnhaol ar les a deilliannau ar gyfer disgyblion

## Argymhellion

A1 Datblygu'r defnydd o asesu ymhellach i gofnodi'r cynnydd a wna disgyblion sydd ag anghenion mwy cymhleth

A2 Cynyddu'r cyfleoedd i ddisgyblion hŷn gymryd rhan mewn lleoliadau profiad gwaith

### Beth sy'n digwydd nesaf?

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion.

Bydd Estyn yn gwahodd yr ysgol i baratoi astudiaeth achos ysgrifenedig, yn disgrifio'r arfer ragorol a nodwyd yn ystod yr arolygiad.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | Da |
|---|---|

**Safonau: Da**

Mae gan ddisgyblion sy'n mynychu Ysgol Heol Goffa ystod eang o anghenion, sy'n cynnwys awtistiaeth, anawsterau dysgu difrifol ac anawsterau dysgu dwys a lluosog. Dros gyfnod, mae bron pob un o'r disgyblion yn gwneud cynnydd cryf mewn perthynas â'u hanghenion a'u galluoedd unigol. Mae llawer o ddisgyblion yn gwneud cynnydd cryf o ran datblygu eu medrau mewn perthynas â llythrennedd, rhifedd, technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh), ac addysg bersonol a chymdeithasol. Maent yn cymhwyso'r rhain yn gyson ar draws y cwricwlwm ac wrth iddynt ryngweithio'n gymdeithasol.

Erbyn iddynt adael yr ysgol, mae pob un o'r ymadawyr yn ennill o leiaf un cymhwyster neu fwy mewn cyrsiau achrededig sy'n gweddu'n dda i'w hanghenion a'u galluoedd unigol. Mae'r cymwysterau hyn yn cynnwys unedau ASDAN ac Agored Cymru ar lefel mynediad 1 i lefel mynediad 3. Mae rhai disgyblion yn ennill gwobrau efydd Dug Caeredin. Dros y tair blynedd ddiwethaf, mae bron pob un o'r disgyblion wedi symud ymlaen i addysg bellach neu ddarpariaeth gwasanaethau oedolion.

Nid yw'n briodol cymharu'r safonau a gyflawnir gan ddisgyblion yn yr ysgol â chyfartaleddau cenedlaethol neu i ddadansoddi tueddiadau mewn perfformiad cyffredinol dros gyfnod oherwydd ystod eang anghenion addysgol arbennig disgyblion. Nid oes unrhyw wahaniaeth arwyddocaol rhwng perfformiad yr holl ddisgyblion a pherfformiad bechgyn a merched, y rheiny sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim neu'r rheiny sy'n derbyn gofal gan awdurdod lleol.

Mewn gwersi, mae llawer o ddisgyblion yn galw dysgu blaenorol i gof yn dda. Mae ganddynt ddealltwriaeth dda o arferion ystafell ddosbarth ac maent yn dilyn y rhain yn gadarnhaol. Mae hyn yn hyrwyddo datblygiad eu hunanhyder ac yn helpu iddynt fod yn ddysgwyr effeithiol.

Mae disgyblion ar draws yr ysgol yn datblygu eu medrau meddwl yn dda. Maent yn ymateb yn hyderus i dasgau sy'n gofyn iddynt gymhwyso eu gwybodaeth a datrys problemau. Er enghraifft, mae disgyblion iau yn gweithio gyda'i gilydd yn effeithiol i ddatrys cliwiau a dilyn trywydd. Mae disgyblion hŷn yn cynllunio a threfnu'r siop bwyta'n iach ddyddiol fel menter lwyddiannus yn yr ysgol.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud cynnydd da o ran datblygu medrau cyfathrebu effeithiol mewn perthynas â'u hanghenion a'u galluoedd. Er enghraifft, maent yn gwybod sut i wneud cyswllt llygad ac yn aros eu tro i gyfrannu at drafodaeth. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwrando'n dda ar staff a'u cyfoedion ac yn dilyn cyfarwyddiadau'n gywir. Mae llawer o ddisgyblion yn ymateb i gwestiynau'n hyderus ac yn rhannu eu syniadau'n effeithiol. Mae rhai disgyblion sy'n fwy abl yn gofyn cwestiynau addas i archwilio'r pwnc y maent yn ei astudio ymhellach. Mae disgyblion ôl-16 yn cynnig cyfraniadau llafar estynedig a huawdl i ddatblygu plot drama wreiddiol heb lawer o anogaeth.

Mae disgyblion ag anghenion mwy cymhleth yn defnyddio technoleg gynorthwyol i gefnogi eu cyfathrebu yn effeithiol.  Er enghraifft, defnyddiant arwyddion a symbolau i gyfleu eu hanghenion, gwneud dewisiadau ac ateb cwestiynau.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud cynnydd priodol yn eu medrau llythrennedd.  Mae disgyblion mwy abl yn dysgu sillafu geiriau amlder uchel yn gywir, ac yn datblygu llawysgrifen glir.  Yn gyffredinol, defnyddiant briflythrennau ac atalnodau llawn yn gywir.  Mae disgyblion llai abl yn gwella'u llawysgrifen ac yn datblygu ffurfiant llythrennau cyson trwy drosysgrifo.  Mae llawer o ddisgyblion yn gwella eu medrau darllen yn briodol dros gyfnod.  Mae disgyblion mwy abl yn darllen yn hyderus ac yn caffael strategaethau priodol i ddarllen geiriau hwy neu anghyfarwydd.  Mae rhai disgyblion yn darllen â mynegiant priodol ac yn dilyn atalnodi i oedi mewn lleoedd priodol.

Mae llawer o ddisgyblion yn gwneud cynnydd da o ran datblygu eu medrau rhifedd.  Mae disgyblion yng nghyfnod allweddol 3 yn gwybod enwau a nodweddion siapiau dau ddimensiwn syml a gallant adnabod ystod o siapiau tri dimensiwn yn llwyddiannus.  Gall mwyafrif o ddisgyblion gymhwyso eu medrau rhifedd yn llwyddiannus mewn sefyllfaoedd ymarferol, er enghraifft wrth ddweud yr amser, cynllunio cyllideb neu brynu bwydydd.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud defnydd effeithiol o TGCh i ddatblygu eu medrau at ystod o ddibenion.  Er enghraifft, mae disgyblion yng nghyfnod allweddol 2 yn defnyddio'r bwrdd gwyn rhyngweithiol yn hyderus i gwblhau patrymau cymesur yn gywir.  Yng nghyfnod allweddol 4, mae disgyblion yn defnyddio llechi cyfrifiadur yn effeithiol i gofnodi eu dysgu ac ymchwilio i gost bwydydd wrth gynllunio parti.  Gall disgyblion ôl-16 ddefnyddio'r rhyngrwyd i gynllunio'r llwybrau mwyaf effeithiol ar reilffordd a'r ffordd i gyrchfan hysbys a chyfrifo cost y daith.

Mae llawer o ddisgyblion ôl-16 sy'n fwy abl, a lleiafrif o ddisgyblion yng nghyfnod allweddol 4, yn gwneud defnydd effeithiol o gyfleoedd galwedigaethol i ennill dealltwriaeth glir o fyd gwaith.

Mae mwyafrif y disgyblion yn ymateb yn briodol i gyfarchion Cymraeg a gallant ddefnyddio geiriau cyfarch cyffredin yn y cyd-destun cywir.  Dros gyfnod, datblygant eu dealltwriaeth o ymadroddion a ddefnyddir yn aml.  Mae bron pob un o'r disgyblion yn datblygu eu dealltwriaeth o ddiwylliant a threftadaeth Cymru yn effeithiol.

## Lles:  Rhagorol

Mae disgyblion yn mwynhau dod i'r ysgol, ac yn cymryd rhan yn frwdfrydig ym mhob agwedd ar fywyd yr ysgol.  Maent yn gadarnhaol ynglŷn â'u dysgu ac yn falch o'u cyflawniadau.

Mae bron pob un o'r disgyblion yn gwybod sut i gadw eu hunain yn iach a sut i fod yn ddiogel.  Maent yn gwybod beth i'w wneud os byddant yn poeni neu'n gofidio ac maent yn hyderus y bydd y staff yn ymateb yn dda i'w pryderon.

Mae gan ddisgyblion ag anghenion cymhleth agwedd gadarnhaol at gadw eu hunain yn iach trwy gymryd rhan yn dda mewn rhaglenni therapi fel ffisiotherapi, hydrotherapi a therapi adlam.  Maent yn ymateb yn frwdfrydig i raglenni synhwyraidd.

Mae bron pob un o'r disgyblion yn cymryd rhan yn frwdfrydig mewn ymarfer corff rheolaidd mewn gwersi addysg gorfforol a gweithgareddau amser cinio. Mae'r rhain yn cynnwys dawns, gymnasteg a defnyddio'r ffrâm ddringo amser cinio. Mae hyn yn eu helpu i ddatblygu eu dealltwriaeth o bwysigrwydd ymarfer corff mewn ffordd iach o fyw. Mae llawer o ddisgyblion yn mwynhau cael cyfleoedd rheolaidd i sgïo mewn canolfan sgïo leol a'r her o ymestyn eu medrau ar eira yn ystod teithiau ysgol gwerthfawr dramor. Mae ychydig iawn o ddisgyblion wedi datblygu eu medrau sgïo i lefel uchel ac yn cynrychioli Cymru a Phrydain ar lefel ryngwladol.

Mae llawer o ddisgyblion yn datblygu eu gallu i weithio'n dda gyda disgyblion eraill trwy gymryd rhan mewn gweithgareddau allgyrsiol fel canu yng nghôr yr ysgol, perfformio mewn cynyrchiadau drama a chymryd rhan mewn cystadlaethau coginio.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn meddu ar ddealltwriaeth gadarn o bwysigrwydd hylendid personol, gan gynnwys yr angen i olchi eu dwylo cyn trin bwyd. Maent yn gwybod pa fwydydd sy'n iach a pha rai sydd ddim yn iach, ac am bwysigrwydd cael diet cytbwys.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn mynd i'r ysgol yn rheolaidd, a phan na fyddant yn gwneud hynny, mae hyn yn bennaf o ganlyniad i'w hanghenion cymhleth. Mae disgyblion yn cymryd rhan yn eithriadol o dda mewn gwersi, ac yn dal ati i ganolbwyntio a chynnal eu diddordeb. Mae'r rhan fwyaf ohonynt yn myfyrio'n dda ar eu cynnydd o ran cyflawni eu targedau personol ac yn gwybod beth i'w wneud i wella.

Mae bron pob un o'r disgyblion yn dysgu'r medrau sydd eu hangen arnynt i reoli eu hymddygiad yn dda dros gyfnod. Maent yn meithrin perthnasoedd parchus gyda staff ac yn ymateb yn gadarnhaol i'r cymorth a gânt. Mae disgyblion yn groesawgar a chwrtais at ymwelwyr yn ogystal ag at ei gilydd.

Mae aelodau'r cyngor ysgol yn cyfrannu'n frwdfrydig at bob agwedd ar fywyd yr ysgol. Gwnânt wahaniaeth pwysig i brofiadau disgyblion yn yr ysgol. Er enghraifft, maent wedi gweithio gyda'r cyngor lleol i wella diogelwch cerddwyr y tu allan i'r ysgol. Maent yn mynychu cyfarfodydd y corff llywodraethol yn rheolaidd ac yn gweithio gyda chynghorau ysgol eraill yn lleol ac yn genedlaethol.

Mae disgyblion ar draws yr ysgol yn datblygu gofal ac empathi at bobl eraill trwy weithgareddau codi arian ar gyfer amrywiaeth o elusennau.

| **Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?** | **Rhagorol** |
|---|---|

**Profiadau dysgu: Rhagorol**

Mae'r ysgol yn darparu cwricwlwm eang a chytbwys sy'n bodloni anghenion y disgyblion yn eithriadol o dda. Mae athrawon yn cynllunio ar y cyd i wneud defnydd hynod effeithiol o adnoddau'r ysgol a sicrhau profiadau dysgu ysgogol a difyr ar draws yr ysgol. Mae cynlluniau'r cwricwlwm yn adeiladu'n systematig ar wybodaeth, dealltwriaeth a medrau disgyblion.

Mae'r ysgol yn gwneud defnydd creadigol o'r amgylchedd lleol i ymestyn dysgu disgyblion a galluogi disgyblion i gymhwyso eu gwybodaeth yn y gymuned ehangach. Maent yn elwa ar y gymuned yn rheolaidd i ddatblygu eu medrau, er enghraifft wrth siopa am fwyd neu ddatblygu eu hymwybyddiaeth o ddiogelwch ar y ffordd.

Rhoddir pwyslais cryf ar draws yr ysgol ar sicrhau bod disgyblion yn datblygu'r medrau sydd eu hangen arnynt i fod yn fwy annibynnol. Mae'r ysgol yn darparu ystod o weithgareddau allgyrsiol, clybiau a phrofiadau preswyl, gan gynnwys cerddoriaeth, drama, pêl-rwyd, garddio a boccia. Mae'r rhain yn hynod effeithiol o ran datblygu hyder disgyblion a'r medrau ehangach y bydd eu hangen arnynt yn eu bywydau yn y dyfodol. Caiff disgyblion ôl-16 gyfleoedd perthnasol i gymryd rhan mewn profiad gwaith a gweithgareddau menter sy'n eu paratoi'n dda ar gyfer byd gwaith.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer cydlynu datblygiad medrau disgyblion mewn cyfathrebu, llythrennedd, rhifedd a TGCh yn nodwedd gref iawn yn yr ysgol. Mae'r ysgol yn olrhain cynnydd disgyblion yn y medrau hyn yn dda iawn ac yn sicrhau bod ymyriadau addas ar waith i alluogi pob disgybl i wneud cynnydd parhaus yn y meysydd pwysig hyn.

Mae athrawon yn cynllunio'n effeithiol i sicrhau bod disgyblion yn cael cyfleoedd addas i ddysgu am ofalu am yr amgylchedd. Mae'r ysgol yn hyrwyddo datblygu cynaliadwy yn dda ar draws llawer o feysydd o fywyd yr ysgol, er enghraifft trwy'r pythefnos Masnach Deg a gynhelir bob blwyddyn. Mae gan yr ysgol gysylltiadau rhyngwladol cryf, sy'n cryfhau profiadau a dealltwriaeth disgyblion o wahanol ddiwylliannau a'u rôl fel dinasyddion byd-eang.

Mae'r ysgol yn cynllunio'n briodol i ddatblygu medrau Cymraeg disgyblion. Ceir llawer o gyfleoedd i ddisgyblion ddatblygu eu dealltwriaeth o ddiwylliant a threftadaeth Cymru, er enghraifft trwy eisteddfod flynyddol yr ysgol a theithiau preswyl i Langrannog.

**Addysgu: Rhagorol**

Mae ansawdd yr addysgu yn gyson uchel ar draws yr ysgol. Mae gan bob un o'r athrawon ddisgwyliadau uchel o'r hyn y gall disgyblion ei gyflawni. Maent yn herio disgyblion yn briodol i ganolbwyntio a chwblhau tasgau hyd eithaf eu gallu.

Mae pob un o'r athrawon yn sicrhau bod gwersi'n cael eu seilio ar brofiadau difyr a chreadigol, a defnyddiant ystod eang o adnoddau dychmygus i gefnogi dysgu. Mae'r gweithgareddau difyr ac amrywiol yn bodloni anghenion unigol disgyblion yn llwyddiannus, yn enwedig pan fydd athrawon yn dewis tasgau sy'n addas ar gyfer arddulliau dysgu disgyblion unigol. Mae staff yn defnyddio holi'n eithriadol o dda i ddatblygu dealltwriaeth disgyblion a'u helpu i fyfyrio ar yr hyn y maent wedi'i ddysgu. O ganlyniad, dros gyfnod, mae llawer o ddisgyblion yn gwella eu medrau cyfathrebu ac yn deall sut i wella'u gwaith.

Mae athrawon a staff cymorth yn gweithio gyda'i gilydd yn agos fel tîm cryf ac effeithiol. Mae pob un o'r staff yn rheoli ymddygiad heriol yn fedrus iawn ac mae hyn yn galluogi disgyblion i ymgymryd â'u dysgu a gwneud cynnydd.

Mae gosod targedau ac asesu cynnydd disgyblion yn nodwedd gref o addysgu. Mae'r asesu yn drylwyr ac mae staff yn defnyddio ystod eang o offer asesu i bennu gwaelodlin disgyblion pan fyddant yn dechrau, olrhain cynnydd disgyblion a gosod targedau ar gyfer camau nesaf disgyblion. Fodd bynnag, mae gweithdrefnau ar gyfer olrhain cynnydd disgyblion ag anghenion cymhleth newydd gael eu rhoi ar waith, ac mae'n rhy gynnar i arfarnu'r effaith a gaiff hyn ar gynnydd disgyblion.

Caiff y defnydd helaeth o dargedau hynod benodol ar gyfer pob disgybl effaith gadarnhaol iawn ar gynnydd disgyblion. Mae staff yn asesu'r cynnydd a wna disgyblion yn ystod gwersi ac yn darparu adborth llafar addysgiadol defnyddiol sy'n cynorthwyo disgyblion yn dda wrth asesu eu dysgu eu hunain. Mae arweinwyr yn defnyddio'r wybodaeth hon yn dda i wneud gwelliannau mewn darpariaeth.

Mae adroddiadau diwedd blwyddyn ac adolygiadau blynyddol yn hysbysu rhieni a gofalwyr yn dda am gyflawniad a datblygiad eu plant.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Rhagorol**

Mae'r ysgol yn darparu lefel uchel iawn o ofal, cymorth ac arweiniad ar gyfer ei disgyblion. Mae gweithdrefnau'r ysgol i hyrwyddo ymwybyddiaeth o ffyrdd iach o fyw a datblygu lles disgyblion yn eithriadol o dda. Ceir darpariaeth helaeth i ddisgyblion gymryd rhan mewn gweithgareddau sy'n datblygu eu lles corfforol ac emosiynol. Caiff disgyblion lawer o gyfleoedd gwerth chweil i ymarfer eu medrau cymdeithasol trwy ymweliadau rheolaidd yn lleol a thramor.

Mae gan yr ysgol gwricwlwm addysg bersonol a chymdeithasol (ABCh) cynhwysfawr sy'n gweddu'n dda iawn i anghenion unigolion. Mae'r ysgol yn darparu cyfleoedd helaeth i ddisgyblion ddatblygu medrau bywyd pwysig, fel dysgu sut i fod yn ddiogel ar-lein, sut i siopa a sut i baratoi prydau bwyd iach.

Mae'r ysgol yn gweithio'n effeithiol iawn gyda gweithwyr proffesiynol o ystod addas o asiantaethau, sy'n sicrhau cynllunio cydweithredol effeithiol ar gyfer anghenion iechyd unigol disgyblion.

Mae cynllunio sy'n canolbwyntio ar y disgybl yn ganolog i ddarpariaeth yr ysgol. O ganlyniad, mae targedau mewn cynlluniau addysg unigol yn cysylltu'n dda â dymuniadau a dewisiadau unigol y disgyblion. Mae'r ysgol yn monitro cynnydd disgyblion yn barhaus yn erbyn y targedau a osodwyd yn eu cynlluniau addysg unigol.

Mae'r ysgol yn gymuned agored a chroesawgar. Mae'n darparu cyfleoedd rheolaidd i rieni ddod i'r ysgol i ddysgu am gynnydd eu plentyn. Mae rhieni'n cefnogi'r digwyddiadau hyn yn dda. Mae'r ysgol wedi cyflwyno gweithdrefnau newydd ar gyfer cynnal yr adolygiad blynyddol o ddatganiadau o anghenion addysgol arbennig. Mae'r trefniadau newydd yn galluogi disgyblion ac aelodau o'u teuluoedd i gyfrannu at benderfyniadau am eu dyfodol yn fwy effeithiol. Mae'r ysgol yn cyfathrebu'n dda â rhieni ac yn darparu cymorth dilynol cyson os bydd angen.

Mae polisïau a gweithdrefnau hynod effeithiol ar waith ar gyfer rheoli ymddygiad disgyblion, ac mae staff yn cymhwyso'r rhain yn eithriadol o dda. Mae staff yn meithrin perthnasoedd cadarnhaol gyda disgyblion, ac yn rheoli ymddygiad disgyblion yn fedrus.

Mae cysylltiadau cryf ag ysgolion eraill ledled y byd yn helpu disgyblion i ddatblygu synnwyr cryf o ymwybyddiaeth ddiwylliannol. Ceir trefniadau effeithiol i ddatblygu ymwybyddiaeth gymdeithasol, foesol ac ysbrydol disgyblion trwy wasanaethau rheolaidd, y cwricwlwm ac amser i fyfyrio bob dydd.

Caiff disgyblion eu hethol gan eu cyfoedion i fod yn aelodau o'r cyngor ysgol. Mae'r cyngor yn cyfarfod yn rheolaidd ac mae'n fforwm effeithiol i ddisgyblion godi pryderon a gwneud newidiadau ar ran disgyblion eraill.

Mae trefniadau'r ysgol ar gyfer diogelu yn bodloni gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.

**Yr amgylchedd dysgu: Digonol**

Ceir ethos tawel a gofalgar iawn yn yr ysgol a chaiff yr holl ddisgyblion eu trin â pharch ac urddas. Mae perthnasoedd cadarnhaol a chefnogol yn amlwg rhwng staff a disgyblion.

Mae staff yn defnyddio'r cyfleusterau yn yr ysgol yn hyblyg er budd yr holl ddisgyblion. Maent yn sicrhau bod disgyblion yn gallu cymryd rhan ym mhob agwedd ar fywyd yr ysgol, waeth pa mor gymhleth yw eu hanghenion a'u galluoedd amrywiol. Caiff cynhwysiant ei gefnogi'n effeithiol gan y cyfleoedd heriol a chyffrous a ddarperir gan yr ysgol.

Mae amgylchedd yr ysgol yn groesawgar ac ysgogol. Mae tir yr ysgol a gynhelir yn dda yn cynnig cyfleoedd gwerthfawr i ddisgyblion gymryd rhan mewn dysgu gweithredol a datblygu eu medrau. Ceir ystod eang o feysydd dysgu arbenigol sy'n galluogi staff i fodloni anghenion amrywiol disgyblion yn effeithiol iawn.

Ar draws yr ysgol, ceir arddangosfeydd ysgogol sy'n dathlu cyflawniadau disgyblion ac yn gwella'u dysgu. Mae gan yr ysgol ystod eang o adnoddau dysgu o ansawdd da sy'n bodloni anghenion disgyblion yn llwyddiannus. Fodd bynnag, mae ardaloedd yn adeilad yr ysgol, yn enwedig neuadd yr ysgol a'r ardaloedd addysgu ar gyfer disgyblion ôl-16, yn cyfyngu ar ystod y cyfleoedd dysgu y gellir eu cynnal ar y safle yn sylweddol.

| **Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?** | **Rhagorol** |
|---|---|

**Arweinyddiaeth: Rhagorol**

Mae'r pennaeth ac aelodau o'r uwch dîm arweinyddiaeth yn darparu arweinyddiaeth eithriadol o dda ar gyfer yr ysgol. Maent yn cyfleu cyfeiriad strategol clir ar gyfer yr ysgol, sy'n canolbwyntio'n dda ar ddatblygu medrau academaidd a chymdeithasol disgyblion trwy ddarparu profiadau dysgu perthnasol, difyr a heriol. Mae pob un o'r staff yn meddu ar ddealltwriaeth dda iawn o'u rolau, ac maent yn gwybod sut mae eu gwaith yn cefnogi cyfeiriad strategol yr ysgol.

Mae'r uwch dîm arweinyddiaeth yn hynod effeithiol o ran datblygu medrau arwain y staff niferus sydd â chyfrifoldeb am gydlynu pynciau ac arwain prosiectau i wella'r

ysgol. Maent wedi cyflwyno gweithdrefn drylwyr ar gyfer rheoli'r prosiectau hyn, sy'n rhoi arweiniad clir i staff ar gyfer eu gwaith. Mae uwch arweinwyr yn darparu hyfforddiant a mentora hynod effeithiol i helpu staff i gyflawni'r rolau hyn yn llwyddiannus. Mae dosbarthu rolau arwain yn helaeth wedi helpu'r ysgol i ymateb yn gadarnhaol i lawer o flaenoriaethau lleol a chenedlaethol. Er enghraifft, mae'r ysgol wedi datblygu profiadau dysgu hynod greadigol ac arloesol sy'n cael effaith fuddiol ar safonau a lles disgyblion.

Caiff gwaith yr ysgol ei gefnogi gan set o bolisïau a gweithdrefnau cynhwysfawr a manwl y mae staff yn eu deall yn dda. Caiff y rhain eu hadolygu'n rheolaidd gan y pennaeth a'r corff llywodraethol. Ceir calendr manwl o ddigwyddiadau sy'n cynnwys ffocws clir ar wella deilliannau ar gyfer disgyblion. Mae cyfarfodydd yn bwrpasol, yn cynnwys agendâu clir ac yn arwain at gamau gweithredu clir y mae arweinwyr yn eu hadolygu ac yn mynd i'r afael â nhw.

Mae aelodau o'r uwch dîm arweinyddiaeth a chydlynwyr pwnc yn drylwyr o ran casglu gwybodaeth gynhwysfawr am ansawdd addysgu a dysgu fel rhan o'r broses rheoli perfformiad ardderchog. Defnyddiant y wybodaeth hon i osod targedau heriol ar gyfer staff sy'n cysylltu'n dda â blaenoriaethau pynciau unigol ac ysgol gyfan ar gyfer datblygu.

Mae'r corff llywodraethol yn wybodus am waith yr ysgol. Cânt adroddiadau manwl gan uwch arweinwyr ac maent yn ymweld â'r ysgol yn rheolaidd. Mae llawer o lywodraethwyr yn cymryd rhan mewn teithiau dysgu ffocysedig ac maent yn adnabod y staff a'r disgyblion yn dda. O ganlyniad i'w lefel uchel o ymgysylltiad, maent yn meddu ar ddealltwriaeth dda o waith yr ysgol ac yn darparu cymorth cryf a lefel uchel o her ar gyfer yr uwch dîm arweinyddiaeth.

**Gwella ansawdd: Rhagorol**

Mae arweinwyr wedi sefydlu diwylliant cryf o hunanarfarnu. Defnyddiant gylch cynlluniedig o weithgareddau sicrhau ansawdd i fonitro ac adolygu pob agwedd ar waith yr ysgol. Mae staff ar bob lefel yn gwneud cyfraniadau hynod effeithiol at weithgareddau hunanarfarnu, cynllunio gwelliant a sicrhau ansawdd.

Mae'r adroddiad hunanarfarnu yn darparu cofnod trylwyr, manwl a chywir o gryfderau'r ysgol, a'i meysydd i'w gwella. Mae'n rhoi ystyriaeth lawn i adroddiadau monitro gan swyddogion yr awdurdod lleol ac yn defnyddio tystiolaeth uniongyrchol o ansawdd uchel fel cofnodion craffu ar waith ac arsylwadau gwersi. Rhoddir llawer o gyfleoedd i rieni roi eu barn, a chaiff disgyblion gyfleoedd rhagorol i gyfrannu trwy gynrychiolaeth gref o'r cyngor ysgol i'r corff llywodraethol.

Mae arweinwyr yn gwneud defnydd effeithiol iawn o ddata i fonitro ac adolygu'r safonau a gyflawnir gan ddisgyblion, a'r cynnydd a wnânt dros gyfnod. Mae ansawdd adroddiadau hunanarfarnu pynciau yn dda. Maent yn dilyn fformat cyffredin ac yn canolbwyntio'n dda ar ansawdd yr addysgu a deilliannau disgyblion. Mae dadansoddi data gan uwch arweinwyr a chydlynwyr pwnc yn drylwyr, yn yr un modd ag arsylwadau gwersi. Mae'r ffaith fod tystiolaeth uniongyrchol o'r fath yn cael ei harfarnu'n drylwyr yn arwain at dargedau clir ar gyfer staff unigol, pynciau a gwelliant ysgol gyfan. Mae arweinwyr yn defnyddio canlyniadau hunanarfarnu i gynllunio strategaethau hynod effeithiol ar gyfer gwella'r ysgol.

Mae'r cynllun gwella ysgol cynhwysfawr a manwl wedi'i seilio ar y canfyddiadau yn yr adroddiad hunanarfarnu. Mae'r cynllun yn nodi deilliannau a fwriedir, meini prawf llwyddiant clir, terfynau amser priodol a gweithdrefnau trylwyr ar gyfer monitro cynnydd. Mae arweinwyr yn adolygu cynnydd yr ysgol o ran mynd i'r afael â'r blaenoriaethau yng nghynllun gwella'r ysgol yn rheolaidd.

**Gweithio mewn partneriaeth: Rhagorol**

Mae'r ysgol wedi datblygu ystod eang o bartneriaethau strategol hynod effeithiol sy'n cael effaith gadarnhaol ar safonau a lles disgyblion. Mae'r ysgol wedi datblygu partneriaethau strategol rhagorol gydag ysgolion arbennig yng Ngweriniaeth Iwerddon, Gogledd Iwerddon, Yr Alban, Awstria, Cyprus a Thwrci. Mae'r rhain yn rhoi cyfleoedd cyffrous i ddisgyblion deithio dramor, gwneud ffrindiau mewn gwledydd eraill a dysgu'n uniongyrchol am ddiwylliannau a thraddodiadau eraill. Mae'r partneriaethau hyn yn galluogi staff i rannu arfer dda a gwella'r cwricwlwm hefyd. Er enghraifft, mae athrawon wedi defnyddio gwybodaeth o'r partneriaethau hyn i adolygu a gwella cynllunio ar gyfer pynciau fel daearyddiaeth, technoleg bwyd, celf ac addysg grefyddol.

Mae'r ysgol wedi ffurfio partneriaethau hynod effeithiol gydag ystod eang o asiantaethau allanol sy'n helpu i ddarparu rhaglen o ansawdd da ar gyfer dysgu yn yr awyr agored i ddisgyblion. Mae disgyblion yn elwa'n fawr ar raglen gyfoethog ac amrywiol o weithgareddau chwaraeon gan gynnwys sgïo, tennis a gweithgareddau anturus awyr agored fel caiacio. Mae'r rhain wedi gwella hunanhyder, hunan-barch a medrau cymdeithasol disgyblion.

Mae partneriaeth ragorol gyda'r gwasanaeth ieuenctid wedi galluogi disgyblion hŷn i ymuno â thîm pêl-rwyd gydag oedolion o ganolfan ddydd leol. Mae hyn yn rhoi cyfleoedd gwerthfawr i weithio gyda phobl eraill a chymryd rhan mewn cystadlaethau chwaraeon. Mae hyn yn helpu i baratoi rhai disgyblion yn dda ar gyfer trosglwyddo i'r ganolfan ddydd i oedolion wedi iddynt adael yr ysgol.

Mae gan yr ysgol gysylltiadau helaeth â busnesau yn y gymuned leol. Mae'r rhain yn darparu ystod dda iawn o brofiadau dysgu ar gyfer disgyblion sy'n cael effaith gadarnhaol ar ddatblygu eu medrau byw yn annibynnol.

Mae staff yn cyfathrebu'n effeithiol â rhieni a gofalwyr trwy ddyddiaduron cartref-ysgol, adroddiadau manwl a chylchlythyrau rheolaidd. Mae'r ysgol yn darparu hyfforddiant gwerthfawr ar gyfer rhieni a gofalwyr mewn agweddau pwysig ar gyfathrebu, fel defnyddio arwyddion a symbolau. Mae hyn yn hyrwyddo parhad mewn dysgu a gofal ar draws lleoliadau cartref ac ysgol y mae disgyblion a rhieni'n elwa'n fawr arnynt.

**Rheoli adnoddau: Da**

Mae gan yr ysgol ystod eang o staff cymwys a phrofiadol sy'n meddu ar ddealltwriaeth glir o anghenion y disgyblion ac yn dangos ymrwymiad cryf i nodau'r ysgol.

Mae arweinwyr yn defnyddio staff yn dda i wneud y defnydd gorau o'u medrau a'u profiad.  Mae'r ysgol yn rhoi blaenoriaeth uchel i hyfforddiant a datblygiad staff.  Caiff athrawon a chynorthwywyr addysgu gyfleoedd rheolaidd i gynyddu eu harbenigedd trwy fynychu hyfforddiant perthnasol ac ymgymryd â chymwysterau arbenigol.

Caiff athrawon amser cynllunio, paratoi ac asesu priodol.  Mae hyn yn eu galluogi i ddarparu amrywiaeth eang o brofiadau dysgu ysgogol, diddorol a chyfoethogol ar gyfer disgyblion.

Ceir ystod eang o adnoddau o ansawdd uchel a ddefnyddir yn dda i gefnogi dysgu a lles disgyblion.

Mae'r pennaeth yn gweithio'n effeithiol iawn gyda'r corff llywodraethol i fonitro cyllideb yr ysgol.  Gyda'i gilydd, maent yn sicrhau bod gwariant yn cael ei gysylltu'n ofalus â blaenoriaethau cynllun gwella'r ysgol.  Mae'r ysgol yn defnyddio cyllid grant ychwanegol yn effeithiol hefyd i gefnogi medrau cyfathrebu a llythrennedd disgyblion.

Yng ngoleuni'r deilliannau da a gyflawnir gan ddisgyblion, mae'r ysgol yn darparu gwerth da am arian.

# Atodiad 1

## Adroddiad boddhad rhanddeiliaid

## Ymatebion i'r holiadur i ddysgwyr

Mae'n dynodi'r meincnod – dyma gyfanswm yr holl ymatebion er Medi 2010.

| | Number of responses Nifer o ymatebion | Agree Cytuno | Disagree Anghytuno | Don't know Ddim yn gwybod | |
|---|---|---|---|---|---|
| I feel safe in my school. | 32 | 31 | 0 | 1 | Rwy'n teimlo'n ddiogel yn fy ysgol. |
| | | 97% | 0% | 3% | |
| | | 93% | 3% | 3% | |
| The school deals well with any bullying. | 32 | 26 | 3 | 3 | Mae'r ysgol yn delio'n dda ag unrhyw fwlio. |
| | | 81% | 9% | 9% | |
| | | 83% | 9% | 8% | |
| I know who to talk to if I am worried or upset. | 32 | 31 | 0 | 1 | Rwy'n gwybod pwy i siarad ag ef/â hi os ydw i'n poeni neu'n gofidio. |
| | | 97% | 0% | 3% | |
| | | 92% | 3% | 5% | |
| The school teaches me how to keep healthy | 31 | 30 | 1 | 0 | Mae'r ysgol yn fy nysgu i sut i aros yn iach. |
| | | 97% | 3% | 0% | |
| | | 92% | 4% | 4% | |
| There are lots of chances at school for me to get regular exercise. | 32 | 30 | 2 | 0 | Mae llawer o gyfleoedd yn yr ysgol i mi gael ymarfer corff yn rheolaidd. |
| | | 94% | 6% | 0% | |
| | | 91% | 6% | 3% | |
| I am doing well at school | 32 | 30 | 0 | 2 | Rwy'n gwneud yn dda yn yr ysgol. |
| | | 94% | 0% | 6% | |
| | | 92% | 4% | 4% | |
| The teachers and other adults in the school help me to learn and make progress. | 32 | 32 | 0 | 0 | Mae'r athrawon a'r oedolion eraill yn yr ysgol yn fy helpu i ddysgu a gwneud cynnydd. |
| | | 100% | 0% | 0% | |
| | | 97% | 1% | 2% | |
| I know what to do and who to ask if I find my work hard. | 32 | 30 | 0 | 2 | Rwy'n gwybod beth i'w wneud a gyda phwy i siarad os ydw i'n gweld fy ngwaith yn anodd. |
| | | 94% | 0% | 6% | |
| | | 94% | 3% | 3% | |
| My homework helps me to understand and improve my work in school. | 28 | 6 | 7 | 15 | Mae fy ngwaith cartref yn helpu i mi ddeall a gwella fy ngwaith yn yr ysgol. |
| | | 21% | 25% | 54% | |
| | | 62% | 20% | 17% | |
| I have enough books, equipment, and computers to do my work. | 32 | 31 | 0 | 1 | Mae gen i ddigon o lyfrau, offer a chyfrifiaduron i wneud fy ngwaith. |
| | | 97% | 0% | 3% | |
| | | 91% | 5% | 4% | |
| Other children behave well and I can get my work done. | 32 | 24 | 7 | 1 | Mae plant eraill yn ymddwyn yn dda ac rwy'n gallu gwneud fy ngwaith. |
| | | 75% | 22% | 3% | |
| | | 78% | 15% | 7% | |
| Nearly all children behave well at playtime and lunch time | 32 | 24 | 5 | 3 | Mae bron pob un o'r plant yn ymddwyn yn dda amser chwarae ac amser cinio. |
| | | 75% | 16% | 9% | |
| | | 82% | 13% | 6% | |

## Ymatebion i'r holiadur i rieni

Mae'n dynodi'r meincnod – dyma gyfanswm yr holl ymatebion er Medi 2010.

| | Number of responses / Nifer o ymatebion | Strongly Agree / Cytuno'n gryf | Agree / Cytuno | Disagree / Anghytuno | Strongly disagree / Anghytuno'n gryf | Don't know / Ddim yn gwybod | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Overall I am satisfied with the school. | 11 | 10 | 1 | 0 | 0 | 0 | Rwy'n fodlon â'r ysgol yn gyffredinol. |
| | | 91% | 9% | 0% | 0% | | |
| | | 77% | 20% | 2% | 1% | | |
| My child likes this school. | 11 | 11 | 0 | 0 | 0 | 0 | Mae fy mhlentyn yn hoffi'r ysgol hon. |
| | | 100% | 0% | 0% | 0% | | |
| | | 80% | 19% | 1% | 0% | | |
| My child was helped to settle in well when he or she started at the school. | 11 | 11 | 0 | 0 | 0 | 0 | Cafodd fy mhlentyn gymorth i ymgartrefu'n dda pan ddechreuodd yn yr ysgol. |
| | | 100% | 0% | 0% | 0% | | |
| | | 81% | 18% | 1% | 0% | | |
| My child is making good progress at school. | 11 | 8 | 3 | 0 | 0 | 0 | Mae fy mhlentyn yn gwneud cynnydd da yn yr ysgol. |
| | | 73% | 27% | 0% | 0% | | |
| | | 69% | 28% | 3% | 0% | | |
| Pupils behave well in school. | 11 | 6 | 5 | 0 | 0 | 0 | Mae disgyblion yn ymddwyn yn dda yn yr ysgol. |
| | | 55% | 45% | 0% | 0% | | |
| | | 58% | 38% | 4% | 0% | | |
| Teaching is good. | 11 | 8 | 3 | 0 | 0 | 0 | Mae'r addysgu yn dda. |
| | | 73% | 27% | 0% | 0% | | |
| | | 76% | 23% | 1% | 0% | | |
| Staff expect my child to work hard and do his or her best. | 11 | 7 | 4 | 0 | 0 | 0 | Mae'r staff yn disgwyl i fy mhlentyn weithio'n galed a gwneud ei orau. |
| | | 64% | 36% | 0% | 0% | | |
| | | 69% | 30% | 1% | 0% | | |
| The homework that is given builds well on what my child learns in school. | 9 | 2 | 4 | 2 | 0 | 1 | Mae'r gwaith cartref sy'n cael ei roi yn adeiladu'n dda ar yr hyn mae fy mhlentyn yn ei ddysgu yn yr ysgol. |
| | | 22% | 44% | 22% | 0% | | |
| | | 53% | 36% | 8% | 3% | | |
| Staff treat all children fairly and with respect. | 11 | 7 | 4 | 0 | 0 | 0 | Mae'r staff yn trin pob plentyn yn deg a gyda pharch. |
| | | 64% | 36% | 0% | 0% | | |
| | | 77% | 21% | 1% | 1% | | |
| My child is encouraged to be healthy and to take regular exercise. | 11 | 8 | 3 | 0 | 0 | 0 | Caiff fy mhlentyn ei annog i fod yn iach a gwneud ymarfer corff yn rheolaidd. |
| | | 73% | 27% | 0% | 0% | | |
| | | 70% | 28% | 1% | 0% | | |
| My child is safe at school. | 11 | 9 | 2 | 0 | 0 | 0 | Mae fy mhlentyn yn ddiogel yn yr ysgol. |
| | | 82% | 18% | 0% | 0% | | |
| | | 77% | 21% | 1% | 1% | | |
| My child receives appropriate additional support in relation to any particular individual needs'. | 11 | 8 | 3 | 0 | 0 | 0 | Mae fy mhlentyn yn cael cymorth ychwanegol priodol mewn perthynas ag unrhyw anghenion unigol penodol. |
| | | 73% | 27% | 0% | 0% | | |
| | | 73% | 24% | 3% | 1% | | |
| I am kept well informed about my child's progress. | 11 | 7 | 3 | 1 | 0 | 0 | Rwy'n cael gwybodaeth gyson am gynnydd fy mhlentyn. |
| | | 64% | 27% | 9% | 0% | | |
| | | 69% | 25% | 4% | 1% | | |

| | Number of responses / Nifer o ymatebion | Strongly Agree / Cytuno'n gryf | Agree / Cytuno | Disagree / Anghytuno | Strongly disagree / Anghytuno'n gryf | Don't know / Ddim yn gwybod | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| I feel comfortable about approaching the school with questions, suggestions or a problem. | 11 | 8<br>73% | 3<br>27% | 0<br>0% | 0<br>0% | 0 | Rwy'n teimlo'n esmwyth ynglŷn â gofyn cwestiwn i'r ysgol, gwneud awgrymiadau neu nodi problem. |
| | | 77% | 19% | 2% | 2% | | |
| I understand the school's procedure for dealing with complaints. | 11 | 6<br>55% | 4<br>36% | 1<br>9% | 0<br>0% | 0 | Rwy'n deall trefn yr ysgol ar gyfer delio â chwynion. |
| | | 60% | 35% | 3% | 1% | | |
| The school helps my child to become more mature and take on responsibility. | 11 | 7<br>64% | 4<br>36% | 0<br>0% | 0<br>0% | 0 | Mae'r ysgol yn helpu fy mhlentyn i ddod yn fwy aeddfed ac ysgwyddo cyfrifoldeb. |
| | | 67% | 31% | 2% | 0% | | |
| My child is well prepared for moving on to the next school or college or work. | 10 | 3<br>30% | 6<br>60% | 0<br>0% | 0<br>0% | 1 | Mae fy mhlentyn wedi'i baratoi'n dda ar gyfer symud ymlaen i'r ysgol nesaf neu goleg neu waith. |
| | | 52% | 36% | 10% | 3% | | |
| There is a good range of activities including trips or visits. | 11 | 8<br>73% | 3<br>27% | 0<br>0% | 0<br>0% | 0 | Mae amrywiaeth dda o weithgareddau, gan gynnwys teithiau neu ymweliadau. |
| | | 71% | 26% | 3% | 0% | | |
| The school is well run. | 11 | 8<br>73% | 3<br>27% | 0<br>0% | 0<br>0% | 0 | Mae'r ysgol yn cael ei rhedeg yn dda. |
| | | 78% | 20% | 2% | 1% | | |

## Atodiad 2

### Y tîm arolygu

| | |
|---|---|
| Mr Anthony Mulcahy | Arolygydd Cofnodol |
| Mr Richard Mark Tither | Arolygydd Tîm |
| Mrs Linda Jane Williams | Arolygydd Tîm |
| Mrs Justine Elaine Barlow | Arolygydd Lleyg |
| Ms Ange Anderson | Arolygydd Cymheiriaid |
| Mrs Janet Oyston | Dirprwy Bennaeth |

## Copïau o’r adroddiad

Mae copïau o’r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

**Grwpiau blwyddyn, y Cyfnod Sylfaen a chyfnodau allweddol**

Mae ysgolion yn defnyddio system gyffredin o rifo grwpiau blwyddyn o ddechrau addysg ysgol orfodol i 18 oed. Mae’r system hon yn pwysleisio pwysigrwydd parhad ac yn hwyluso cyfathrebu ymhlith ysgolion, cyrff llywodraethol, rhieni ac awdurdodau lleol.

Mae’r tabl canlynol yn nodi’r amrediad oedrannau sy’n berthnasol i bob grŵp blwyddyn. Er enghraifft, mae Blwyddyn 1 yn cyfeirio at y grŵp o ddisgyblion sy’n cyrraedd 6 oed yn ystod y flwyddyn academaidd, a Blwyddyn 13 yw’r grŵp blwyddyn sy’n cyrraedd 18 oed yn ystod y flwyddyn academaidd.

Cyfnod cynradd:

| Blwyddyn | Meithrin | Derbyn | B1 | B2 | B3 | B4 | B5 | B6 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 3-4 | 4-5 | 5-6 | 6-7 | 7-8 | 8-9 | 9-10 | 10-11 |

Cyfnod uwchradd:

| Blwyddyn | B7 | B8 | B9 | B10 | B11 | B12 | B13 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 11-12 | 12-13 | 13-14 | 14-15 | 15-16 | 16-17 | 17-18 |

Mae’r Cyfnod Sylfaen a’r cyfnodau allweddol yn cwmpasu’r grwpiau blwyddyn canlynol:

| | |
|---|---|
| Cyfnod Sylfaen | Meithrin, Dosbarth Derbyn, Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2 |
| Cyfnod allweddol 2 | Blwyddyn 3 i Flwyddyn 6 |
| Cyfnod allweddol 3 | Blwyddyn 7 i Flwyddyn 9 |
| Cyfnod allweddol 4 | Blwyddyn 10 a Blwyddyn 11 |

## Rhestr termau ADY

**ADDLl**:  anawsterau dysgu dwys a lluosog

**ADHD**:  anhwylder gorfywiogrwydd diffyg canolbwyntio

**ADP**:  anawsterau dysgu penodol, yn cynnwys dyslecsia

**ADY**:  anghenion dysgu ychwanegol

**ASA**:  Anhwylder y Sbectrwm Awtistig, sy’n cynnwys Syndrom Asperger

**AYA**:  adnodd ychwanegol yr athro

**AYECh**:  Anawsterau Ymddygiadol, Emosiynol a Chymdeithasol

**CY**:  Cod Ymarfer

**NAS**:  nam amlsynhwyraidd

**NC**:  nam ar y clyw

**NG**:  nam ar y golwg